

# *Canran y plant mewn teuluoedd ag incwm isel cymharol ac incwm isel absoliwt*

**Pwyntiau Allweddol:**

- Incwm Isel Cymharol: Yn 2022/23, roedd mwy na un rhan o bump (21.0%) o blant (dan 16 oed) yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol yng Nghaerdydd. Dyma'r wythfed ganran isaf ar draws ALlau Cymru ac ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru o 21.5%.
- Incwm Isel Absoliwt: Yn 2022/23, roedd 17.8% o blant (dan 16 oed) yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt yng Nghaerdydd. Dyma'r nawfed ganran isaf ar draws ALlau Cymru ac ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru (17.7%).

[DS. Ni chynghorir cymariaethau ar draws gwledydd neu flynyddoedd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Diwedd Blwyddyn Ariannol 2023 neu Ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2022. O ganlyniad, mae'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yma yn dangos amrywiadau mewn ardaloedd lleol yng Nghymru ar gyfer Diwedd Blwyddyn Ariannol 2023 yn unig.]





*Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau*

# Disgwyliad Oes Iach Adeg Geni (Dynion)


**Pwyntiau Allweddol:**


- Ar gyfer 2018-20, disgwyliad oes iach (DOI) ar gyfer dynion adeg geni yng Nghaerdydd (62.87 oed) oedd yr ail uchaf o ddinasoedd craidd y DU a Chaeredin.
- Ers 20212-14, mae DOI ar gyfer dynion yng Nghaerdydd wedi dilyn tuedd tuag i fyny gan achosi iddo godi uwchlaw cyfartaledd Cymru a dal i fyny â ffigur y DU.
- Roedd disgwyl y byddai dynion o Gaerdydd yn treulio pedair rhan o bump (80.57%) o'u bywyd mewn iechyd da yn 2018-20, y drydedd gyfran uchaf allan o'r 'Dinasoedd Craidd' a Chaeredin ac yn uwch na ffigurau Cymru a'r DU.
- Mae'r ffigur hwn hefyd wedi dilyn tuedd tuag i fyny ers 2012-14 gan achosi iddo godi uwchlaw cyfartaledd Cymru a'r DU.

[DS. Ni chafodd data ALl ei gynhyrchu ar gyfer 2019-2021 na 2020-2022 oherwydd pryderon am ansawdd ystadegol yn dilyn patrwm o leihad ym meintiau sampl yr Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, yn enwedig yng nghyfnod pandemig y coronafeirws (COVID-19) 2020 i 2022.]




*DS. Nid yw echelin fertigol yn dechrau ar sero*





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

# Disgwyliad Oes Iach Adeg Geni (Menywod)


**Pwyntiau Allweddol:**


- Ar gyfer 2018-20, disgwyliad oes iach (DOI) ar gyfer menywod adeg geni yng Nghaerdydd (65.86 oed) oedd yr ail uchaf o Ddinasoedd Craidd y DU a Chaeredin.
- Yn dilyn gostyngiad mewn ffigurau, mae DOI ar gyfer menywod yng Nghaerdydd wedi dilyn tuedd tuag i fyny ers 2015-17, gan achosi iddo godi uwchlaw ffigurau Cymru a'r DU.
- Roedd disgwyl y byddai menywod o Gaerdydd yn treulio pedair rhan o bump (79.57%) o'u bywyd mewn iechyd da yn 2018-20, yr ail gyfran uchaf allan o'r 'Dinasoedd Craidd' a Chaeredin ac yn uwch na ffigurau Cymru a'r DU.
- Mae'r ffigur hwn hefyd wedi dilyn tuedd tuag i fyny ers 2015-17 gan achosi iddo godi uwchlaw cyfartaledd Cymru a'r DU.

[DS. Ni chafodd data ALl ei gynhyrchu ar gyfer 2019-2021 na 2020-2022 oherwydd pryderon am ansawdd ystadegol yn dilyn patrwm o leihad ym meintiau sampl yr Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, yn enwedig yng nghyfnod pandemig y coronafeirws (COVID-19) 2020 i 2022.]




*DS. Nid yw echelin fertigol yn dechrau ar sero*




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*


# Pobl sy’n Cysgu Allan


**Pwyntiau Allweddol:**

- Ddiwedd mis Ebrill 2024, amcangyfrifwyd bod 20 o bobl yn cysgu allan yng Nghaerdydd - yr ail ffigur uchaf ar draws Cymru (ar ôl Casnewydd). Roedd hwn yn ddigyfnewid o 20 ar ddiwedd mis Ebrill 2023 ac o'i gymharu ag uchafbwynt o 47 ym mis Tachwedd 2023.

[DS. Mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu, ar y cam hwn o gasglu a chyhoeddi'r ffigurau misol, ei bod yn bwysig peidio â rhoi gormod o bwyslais ar ddata am fis unigol neu gymariaethau â misoedd blaenorol. Mae'r casgliad misol hwn o wybodaeth reoli a'r canllawiau a ddarperir yn parhau i gael eu mireinio a'u gwella.]

[DS. Rhwng 2015 a 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gyfrif Blynyddol Cenedlaethol o Gysgu Allan, a oedd yn cynnwys 'nifer y bobl sy'n cysgu allan fesul 10,000 o bobl'. Fodd bynnag, cafodd hyn ei atal yn 2020 oherwydd y pandemig ac nid yw wedi'i gynnal ers hynny. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei ddisodli gan amcangyfrifon misol newydd.]








*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# Tlodi Bwyd

**Pwyntiau Allweddol:**


- Yn 2023/24, dosbarthodd Ymddiriedolaeth Trussell dros 20k o barseli bwyd brys o ganolfannau dosbarthu Caerdydd. Mae hyn wedi cynyddu’n sydyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf o lai na 13k yn 2021/22.
- Yn ôl Arolwg Holi Caerdydd 2023, yn y 6 mis blaenorol, roedd 16.2% o'r ymatebwyr wedi cael prydau llai na'r arfer neu wedi hepgor prydau bwyd, 7.5% wedi methu prydau bwyd er mwyn fforddio talu eu biliau, roedd 6.2% wedi bod eisiau bwyd ond heb fwyta, 3.4% heb fwyta am ddiwrnod cyfan, ac roedd 2.5% wedi derbyn bwyd gan fanc bwyd neu elusen.
- Roedd gan un o bob pump (20.0%) o'r ymatebwyr rywun yn eu cartref a oedd wedi profi’r mathau hyn o ddiffyg diogeledd bwyd yn ystod y chwe mis blaenorol, cynnydd o 18.5% ar gyfer 2022.
- Yn ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf y ddinas roedd y ffigur hwn mor uchel â 36.8%, bron pedair gwaith yr hyn a welwyd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf lle'r oedd y ffigur yn dal bron yn ddegfed (9.5%).




*Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Trussell*




*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*





*Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd*


# Canran y swyddi â thâl bob awr sy’n is na’r cyflog byw

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae canlyniadau dros dro ar gyfer 2023 yn dangos bod 8.2% o weithwyr Caerdydd yn derbyn tâl bob awr sy’n is na'r cyflog byw.
- Mae'r ganran hon yn sylweddol is na'r ffigurau ar gyfer Cymru a'r DU (y ddau’n 12.9%), yn ogystal â'r mwyafrif o Ddinasoedd Craidd eraill. Dyma hefyd yw'r ganran isaf ar draws ALlau Cymru.
- Mae cyfran Caerdydd wedi gostwng o 14.3% yn 2020, er ei bod wedi aros yn ei hunfan ar 8.2% rhwng 2022 a 2023.
- Mae'r data hwn yn adlewyrchu llwyddiant mudiad Cyflog Byw Gwirioneddol Caerdydd.

[DS:  Data yn seiliedig ar nifer a chyfran y gweithwyr yn y DU sy'n ennill llai na'r cyflog byw fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw]




*Ffynhonnell:  SYG*

*DS.  Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhai dros dro*

